



Idiomau a Phriod-ddulliau *Y Gelyn ar y Trên* - Adnodd y Dysgwr

Darllenwch y brawddegau hyn eto allan o bennod gyntaf *Y Gelyn ar y Trên* a sylwi ar y geiriau **mewn print bras**.

Dewiswch un o'r ymadroddion o'r blwch sy'n esbonio ystyr yr idiom neu'r priod-ddull bob tro a'i ysgrifennu oddi tano.

mor gyflym ag y gallai yn syth bin yn syllu ar yn wyn iawn
a'i ben gyntaf i ganol ei lygaid bydd mewn trwbwl/helynt
bron â marw, yn nerfus iawn

1. Ond roedd llygaid Guto **wedi eu hoelio ar** yr injan fawr, enwog.
2. Yr eiliad nesaf, gwelodd un o'r dynion yn cwmpo allan o'r cerbyd **yn bendramwnwgl** ac yn rowlio i lawr y llethr caregog i'r cae yn ymyl yr afon.
3. Dechreuodd redeg **nerth ei draed** am y dre.
4. Rhaid dweud wrth yr heddlu **ar unwaith**.
5. Roedd Guto **ar bigau'r drain** eisiau dweud ei neges.
6. Edrychodd y plisman i **fyw ei lygaid**.
7. Trodd i edrych ar Guto yn sefyll fan 'ny, **yn wyn fel sialc**.
8. "Rwy i wedi'i rybuddio fe **na fydd hi ddim yn dda arno fe** os mai dweud celwydd y mae e."

